# Ardystio bod gan berson Amhariad ar y Golwg (rhannol ddall) neu Amhariad Difrifol ar y Golwg (dall) – Cymru (2024)

## Rhan 1: Tystysgrif Amhariad ar y Golwg

### Manylion cyswllt:

| | |
|---|---|
| Teitl | |
| Cyfenw | |
| Enw(au) cyntaf a chanol (nodwch yr enw a ffefrir) | |
| Cyfeiriad (gan gynnwys y cod post) | |
| Dyddiad geni | |
| Rhywedd | Gwryw ☐ Benyw ☐ |
| Ffôn yn ystod y dydd | |
| Ffôn symudol | |
| E-bost | |
| Fformat a ffefrir ar gyfer gohebu | Print bras ☐ E-bost ☐ Braille ☐ Wedi'i recordio ☐ Arall ☐ |
| Dewis iaith | Cymraeg ☐ Saesneg ☐ |

## I’w gwblhau gan yr Offthalmolegydd/Optometrydd (ticiwch un)

☐ Rwyf o’r farn bod gan y person hwn amhariad ar y golwg (yn rhannol ddall)

☐ Rwyf o’r farn bod gan y person hwn amhariad difrifol ar y golwg (yn ddall)

☐ Rhoddwyd pecyn gwybodaeth i’r person

Llofnodwyd ______ Dyddiad ______

Enw (priflythrennau) ______

Rwy’n: Offthalmolegydd ☐ Optometrydd ☐

Cyfeiriad prif weithle y sawl sy’n ardystio (ysbyty/practis optometreg)

______

Cafodd yr ardystiad ei gynnal mewn:

Gwasanaeth ysbyty ☐ Practis optometreg ☐

Lleoliad symudol

☐ Claf 1af yn y cyfeiriad

☐ 2il glaf yn y cyfeiriad

☐ 3ydd claf neu gleifion dilynol yn y cyfeiriad

## I’w gwblhau gan y claf neu’r cynrychiolydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llofnodwyd | | Dyddiad | |
| Fy enw yw: | | | |
| Y claf ydw i | ☐ | Cynrychiolydd y claf ydw i | ☐ |

## Caniatâd i rannu gwybodaeth

Er mwyn inni allu eich helpu chi ac eraill, mae angen inni gael gwybodaeth gywir.

Nid oes rhaid ichi gytuno i’ch gwybodaeth gael ei rhannu. Gallwch ddewis peidio â rhannu eich gwybodaeth ag unrhyw un o’r sefydliadau a nodir isod, neu ei rhannu ag un neu ragor ohonynt. Os byddwch yn rhoi eich caniatâd, mae croeso ichi dynnu eich caniatâd yn ôl maes o law trwy ysgrifennu at eich bwrdd iechyd. Ni fyddwn yn rhannu eich gwybodaeth ag unrhyw un arall nad ydynt wedi’u henwi isod. Rydym hefyd wedi sicrhau, o dan ddeddfwriaeth sy’n ymwneud â chyfrinachedd, y byddwn yn prosesu eich gwybodaeth bersonol yn unol â sail gyfreithlon, ac ar gyfer y dibenion hynny y cafodd ei chasglu ar eu cyfer yn unig.

Mae’r wybodaeth sylfaenol sy’n berthnasol i’ch ardystiad yn cael ei rhannu â Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Rydym yn gwneud hyn er mwyn i’r optometrydd sy’n darparu eich gofal gael ad-daliad am ddarparu gwasanaeth.

Mae gwybodaeth ddienw hefyd yn cael ei rhannu â Llywodraeth Cymru a’r byrddau iechyd ar gyfer dibenion ymchwil a chynllunio gwasanaethau, ac i sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu darparu a’u cefnogi’n briodol.

Rydych yn cytuno i rannu (ticiwch y rhai priodol):

A. Yr holl wybodaeth amdanoch â’ch meddyg teulu. ☐

B. Yr holl wybodaeth amdanoch â’ch awdurdod lleol. Defnyddir yr wybodaeth hon i roi cyfle ichi gael eich cofrestru fel person sydd ag amhariad ar y golwg neu amhariad difrifol ar y golwg. Mae hawl gennych i gael eich asesu gan arbenigwr adsefydlu golwg. ☐

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llofnodwyd | | Dyddiad | |
| Fy enw yw: | | | |
| Y claf ydw i | ☐ | Cynrychiolydd y claf ydw i | ☐ |

## Gweithrediad y golwg

| Craffter golwg gorau ar ôl ei gywiro | Y llygad de | ☐ | Y llygad chwith | ☐ |
|---|---|---|---|---|

## Maes golwg

Colled sylweddol o’r maes golwg (gan gynnwys hemianopia) ☐

## A oes gan y claf Syndrom Charles Bonnet?

Wedi cael diagnosis ☐ AMH ☐

Trafodwyd Syndrom Charles Bonnet a darparwyd gwybodaeth (Taflen wybodaeth CBS)

DO ☐ NADDO ☐ AMH ☐

# Diagnosis

Pan fo mwy nag un peth yn achosi'r amhariad ar y golwg, ticiwch y prif achos.

## Retina

| | | Y llygad de | Y llygad chwith |
|---|---|---|---|
| Dirywiad maciwlaidd sy'n gysylltiedig ag oedran – Neofasgwlareiddiad y coroid (gwlyb) | H35.32 | ☐ | ☐ |
| Dirywiad maciwlaidd sy'n gysylltiedig ag oedran – atroffig/atroffi maciwlaidd ynysog (sych) | H35.31 | ☐ | ☐ |
| Retinopathi diabetig | E10.3 – E14.3 H36.0 | ☐ | ☐ |
| Maciwlopathi diabetig | H36.0A | ☐ | ☐ |
| Nychdod etifeddol y retina | H35.5 | ☐ | ☐ |
| Achludiadau fasgwlaidd y retina | H34 | ☐ | ☐ |

Cyflyrau eraill y retina: nodwch

## Glawcoma

| | | Y llygad de | Y llygad chwith |
|---|---|---|---|
| Cynradd, ongl agored | H40.1 | ☐ | ☐ |
| Cynradd, ongl gaeedig | H40.2 | ☐ | ☐ |
| Eilaidd | H40.5 | ☐ | ☐ |

Glawcoma arall: nodwch

## Pelen y llygad

| | | Y llygad de | Y llygad chwith |
|---|---|---|---|
| Myopia dirywiol | H44.2 | ☐ | ☐ |

## Niwrolegol

| | | Y llygad de | Y llygad chwith |
|---|---|---|---|
| Atroffi optig | H47.2 | ☐ | ☐ |
| Anhwylder cortecs y golwg | H47.6 | ☐ | ☐ |
| Clefyd serebrofasgwlaidd | | ☐ | ☐ |

## Coroid

| | | Y llygad de | Y llygad chwith |
|---|---|---|---|
| Corioretinitis | H30.9 | ☐ | ☐ |
| Dirywiad y coroid | H31.1 | ☐ | ☐ |

## Lens

| | | Y llygad de | Y llygad chwith |
|---|---|---|---|
| Cataractau (ac eithrio cynhenid) | H25.9 | ☐ | ☐ |

## Cornbilen

| | | Y llygad de | Y llygad chwith |
|---|---|---|---|
| Creithiau ar y gornbilen ac anrhyloywderau yn y gornbilen | H17 | ☐ | ☐ |
| Ceratitis | H16 | ☐ | ☐ |

## Pediatrig

| | | Y llygad de | Y llygad chwith |
|---|---|---|---|
| Retinopathi mewn babanod a anwyd yn gynnar | H35.1 | ☐ | ☐ |
| Camffurfiad cynhenid yn y system nerfol ganolog | Q00-Q07 | ☐ | ☐ |
| Camffurfiad cynhenid y llygad | Q10-Q15 | ☐ | ☐ |

Cynhenid: nodwch y syndrom neu natur y camffurfiad

## Neoplasia

| | | Y llygad de | Y llygad chwith |
|---|---|---|---|
| Llygad | C69 | ☐ | ☐ |
| Yr ymennydd a'r system nerfol ganolog | C71-C72 | ☐ | ☐ |

Neoplasia arall: nodwch

Diagnosis nad yw wedi'i gynnwys uchod – nodwch yn benodol, gan gynnwys y Cod ICD10 (os yw'n hysbys)

Nodiadau ychwanegol:

Nodwch nad yw hon yn rhestr hollgynhwysol o bob diagnosis posibl. Mae'n cynnwys popeth ac eithrio cyflyrau prin sy'n achosi lleihad yn y golwg a dynnwyd o'r ffurflenni rhan 5 BD8 2001 a ddychwelwyd. Codau ICD10 yw'r codau uchod.

## Rhagor o wybodaeth ar gyfer cael cymorth

Nodwch:

Ydych chi'n byw ar eich pen eich hun? ☐

Oes gennych chi broblemau clyw? ☐

Os mai plentyn ydych chi, ydych chi neu eich rhieni am gael:

Gwybodaeth am ysgolion, addysg neu hyfforddiant? ☐

## Grŵp ethnig

Dewiswch un opsiwn sy'n disgrifio orau eich cefndir neu grŵp ethnig

### Gwyn

☐ Cymreig / Seisnig / Albanaidd / O Ogledd Iwerddon / Prydeinig

☐ Gwyddelig

☐ Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig

☐ Unrhyw gefndir Gwyn arall, **disgrifiwch**

### Grwpiau cymysg / aml-ethnig

☐ Gwyn a Du Caribïaidd

☐ Gwyn a Du Affricanaidd

☐ Gwyn ac Asiaidd

☐ Cefndir Cymysg / Aml-ethnig arall, **disgrifiwch**

## Asiaidd / Asiaidd Prydeinig

- [ ] Indiaidd
- [ ] Pacistanaidd
- [ ] Bangladeshaidd
- [ ] Tsieineaidd
- [ ] Unrhyw gefndir Asiaidd arall, **disgrifiwch**

## Du / Affricanaidd / Caribïaidd / Du Prydeinig

- [ ] Affricanaidd
- [ ] Caribïaidd
- [ ] Unrhyw gefndir Du / Affricanaidd / Caribïaidd arall, **disgrifiwch**

## Grŵp ethnig arall

- [ ] Arabaidd
- [ ] Unrhyw grŵp ethnig arall, **disgrifiwch**

# Taflen Wybodaeth i Gleifion (I'w rhoi i'r claf)

Mae tair prif swyddogaeth i'r Dystysgrif Amhariad ar y Golwg hon:

1. Mae'n golygu eich bod yn gymwys i gael eich cofrestru â'ch awdurdod lleol/ymddiriedolaeth gwasanaethau cymdeithasol fel unigolyn sydd ag amhariad ar y golwg (yn rhannol ddall) neu sydd ag amhariad difrifol ar y golwg (yn ddall).

2. Mae'n rhoi gwybod i'ch awdurdod lleol/ymddiriedolaeth gwasanaethau cymdeithasol eich bod yn colli eich golwg. Mae dyletswydd arnynt i gysylltu â chi i gynnig ichi gofrestru, ac i weld a oes arnoch angen help gyda thasgau o ddydd i ddydd.

3. Mae'r dystysgrif yn cofnodi gwybodaeth bwysig am y rheswm pam eich bod yn colli eich golwg. Mae'n helpu'r GIG i nodi unrhyw dueddiadau mewn rhai cyflyrau llygaid ac mae o gymorth wrth gynllunio gwasanaethau.

## Ardystio a chofrestru

Ar ôl ichi gael eich ardystio fel rhywun sydd â naill ai amhariad ar y golwg (yn rhannol ddall) neu amhariad difrifol ar y golwg (yn ddall), gallwch gael eich cofrestru â'r awdurdod lleol. Os ydych chi wedi penderfynu y gall yr awdurdod lleol dderbyn eich manylion, byddant yn cysylltu â chi i drafod cynnal asesiad o'ch anghenion. Bydd yr asesiad yn galluogi'r awdurdodau lleol i benderfynu a allant eich helpu i fyw'n annibynnol. Byddant hefyd yn siarad â chi am gofrestru.

## Manteision cofrestru

Mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i greu cofrestri o bobl sy'n colli eu golwg, a'u cynnal. Trwy gofrestru, byddwch yn helpu eich awdurdod lleol i ddeall anghenion y boblogaeth leol ac yn eu cynorthwyo i gynllunio gwasanaethau ar gyfer pobl â cholled synhwyraidd.

Yn aml, mae cael eich cofrestru yn gam cadarnhaol tuag at gael cymorth i barhau i fod mor annibynnol â phosibl. Bydd hefyd yn haws ichi brofi i ddarparwyr gwasanaethau, cyflogwyr, ysgolion, colegau neu i bobl eraill beth yw lefel eich golwg. Bydd cofrestru yn eich cynorthwyo chi, ac unrhyw un sy'n gofalu amdanoch i ddangos eich bod yn gymwys ar gyfer rhai hawliau, gan gynnwys budd-daliadau.

## Gwybodaeth ar gyfer ymchwil

Trwy'r ffurflen hon, gellir anfon gwybodaeth feddygol am eich cyflwr llygaid i'r Swyddfa Ardystio, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Bydd y Swyddfa Ardystio'n casglu gwybodaeth feddygol ac yn casglu ynghyd gofnodion o nifer yr achosion o gyflyrau llygaid. Mae'r wybodaeth hon yn bwysig oherwydd mae'n gallu arwain at ddatblygiadau meddygol yn y dyfodol. Mae hefyd yn darparu tystiolaeth o ba gyflyrau llygaid sy'n effeithio ar bobl fel y gellir cynllunio gwasanaethau llygaid GIG Cymru i ddiwallu anghenion cleifion.

## I'w gadw mewn cof

Nid yw'r ffaith ichi gael eich ardystio fel rhywun ag amhariad difrifol ar y golwg o reidrwydd yn golygu nad ydych yn gallu gweld o gwbl, neu y byddwch yn colli'ch golwg yn llwyr yn y dyfodol.

1. Nid oes rhaid ichi gael eich cofrestru â'r awdurdod lleol os nad ydych yn dymuno gwneud hynny; eich dewis personol chi yw cael eich cofrestru neu beidio.
2. Nid oes rhaid ichi fod wedi eich cofrestru i gael eich asesu ar gyfer cymorth gan eich awdurdod lleol.
3. Gallwch dynnu eich caniatâd ar gyfer cofrestru yn ôl pryd bynnag y mynnwch.
4. Efallai y byddwch yn gymwys i gael budd-daliadau os byddwch wedi cael eich cofrestru gan yr awdurdod lleol. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am hyn gan eich awdurdod.

## Gyrru

Os ydych yn gyrru ac rydych yn colli eich golwg, rhaid ichi roi gwybod i'r DVLA am hyn cyn gynted â phosibl. Er bod y DVLA yn ystyried pob achos yn unigol, mae'n debygol, os ydych wedi cael gwybod hyn, na ddylech barhau i yrru.

Os byddwch yn penderfynu parhau i yrru heb hysbysu'r DVLA, gallech wynebu canlyniadau difrifol iawn, gan gynnwys dirwy o hyd at £1,000. Byddwch hefyd yn peryglu eich bywyd eich hun a bywydau pobl eraill.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r DVLA yn:

- Grŵp Meddygol y Gyrwyr, DVLA, Abertawe, SA99 1TU
- Ffôn 0300 790 6806
- E-bost, ewch i www.gov.uk/contact-the-dvla

OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG49910
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg